# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Mill Row**

**Abertawe**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Mill Row

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tan Yr Allt Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Rhagfyr 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon dda i'r bobl. Roedd yr holl adborth a gafwyd gan bobl a pherthynas yn gadarnhaol ac yn ganmoliaethus iawn. Mae prosesau cynllunio cymorth personol cadarn a thrylwyr ar waith. Mae system electronig newydd ar gyfer cynllunio a chofnodi cymorth yn cael ei threialu yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r bobl yn chwarae rhan lawn a gweithredol yn y broses o gynllunio eu hanghenion gofal a chymorth ac ymgynghorir â nhw yn rheolaidd yn hyn o beth. Mae cynlluniau cymorth a risg personol yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref ac i fynd allan i'r gymuned yn rheolaidd. Mae angen gwella'r broses o gofnodi meddyginiaeth a roddir i bobl a sut y caiff hyn ei archwilio.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm ymroddedig o weithwyr gofal profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda a rheolwr sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Nid yw'r rheolwr wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (y rheoleiddiwr staff gofal

cymdeithasol) ac mae angen ymdrin â hyn. Mae'r holl weithwyr gofal yn wybodus iawn ynghylch anghenion y bobl a gefnogir ganddynt.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion yn dda ac sy'n gartrefol, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu da ar waith.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a chânt eu cynnwys ym mhob penderfyniad am eu gofal a'u cymorth. Gwelsom y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl mewn ffordd gyfeillgar a hamddenol, gan ryngweithio â nhw mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol. Mae system ‘gweithiwr allweddol’ ar waith yn y gwasanaeth sy'n golygu bod aelod arbennig o staff sydd â chyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys ac yr ymgynghorir â nhw. Mae'r ffeiliau cymorth electronig a welwyd yn dangos bod anghenion y bobl yn cael eu hystyried yn llawn, gan gynnwys eu dymuniadau a'u dewisiadau eu hunain. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion gofal y bobl yn dda. Mae asesiadau risg yn fanwl ac yn drylwyr er mwyn sicrhau y caiff y bobl eu cefnogi'n ddiogel. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw, gweithwyr gofal a pherthynas fod y gofal a'r cymorth a ddarperir o safon uchel. Mae parhad y gofal yn dda ac mae nifer o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn.

Caiff iechyd corfforol a meddyliol y bobl a'u llesiant emosiynol eu hybu. Caiff y bobl eu cefnogi i fynd allan i'r gymuned fel y bo'n briodol ac mae rhaglen weithgareddau amrywiol ar gael iddynt yn y gwasanaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau a gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi hyn. Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer cofnodi, storio ac archwilio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae angen gwella'r rhain er mwyn sicrhau bod y broses o roi a dogfennu meddyginiaeth yn cyrraedd y safon ofynnol. Caiff y bobl eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n ceisio cymorth meddygol yn gyflym i'w helpu'n briodol pan fydd angen. Mae ymarferwyr gofal iechyd arbenigol wedi'u cyflogi gan y darparwr sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae pob gweithiwr gofal wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac mae'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn arwain gweithwyr gofal, ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru lle bo angen. Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu da ar waith a gaiff eu goruchwylio gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Datganiad o Ddiben cyfredol yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae angen i reolwr cyfredol y gwasanaeth gwblhau'r broses gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn byw mewn cartref diogel a chartrefol. Mae proses gofrestru ar waith wrth gyrraedd a gadael y safle. Caiff y gwasanaeth ei gynnal a'i gadw'n dda, a chaiff yr holl wiriadau diogelwch gorfodol eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn gyfforddus, a chaiff yr ystafelloedd gwely eu personoli lle bo'n briodol er mwyn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith yn y gwasanaeth mewn perthynas â rheoli heintiau a COVID-19.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda sy'n ystyried eu dymuniadau, eu hanghenion, eu risgiau a'u nodau personol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn system cynllunio cymorth ar-lein electronig newydd yn ddiweddar sy'n cael ei threialu yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae gan y darparwr gynllun personol ar-lein trylwyr a chyfredol sy'n nodi sut y caiff gofal ei ddarparu. Mae'r cynlluniau personol yn dangos beth sydd o bwys i'r unigolyn a'r ffordd orau o'i helpu i gyflawni ei nodau. Mae asesiadau risg priodol ar waith sy'n cyd-fynd â'r cynlluniau hyn. Ystyrir gallu'r bobl i fod yn rhan o'r broses cynllunio gofal ac mae'r mesurau cyfreithiol priodol ar waith lle bo angen. Mae'r cymorth a ddarperir yn cael ei gofnodi'n fanwl ac mae tystiolaeth bod anghenion a nodau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cofnodion yn cysylltu â chanlyniadau penodol sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau cymorth hefyd. Mae gan y bobl weithiwr gofal penodol sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r wybodaeth am gymorth a sicrhau yr ymgynghorir â'r unigolyn ac y caiff ei gynnwys yn y broses o gynllunio gofal. Caiff gwasanaethau eu strwythuro a'u cynllunio yn unol ag anghenion y bobl. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i fynd allan i'r gymuned yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gwasanaeth bob dydd. Mae'r darparwr yn rhedeg cartrefi gofal eraill gerllaw ac mae cyfleoedd i'r bobl gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y lleoliadau hyn hefyd. Dywedodd person wrthym; *"I am happy living here and no complaints or worries. Staff are very good and supportive".* Dywedodd perthynas wrthym; *"Could not be in a better place. Nothing bad to say about it at all. The staff are all really good and they keep in touch and give me updates".*

Mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill sydd eu hangen ar y bobl ar gael iddynt. Gwnaethom ddarllen gwybodaeth iechyd a oedd wedi'i dogfennu, gan gynnwys apwyntiadau, canlyniadau a chamau gweithredu sydd wedi'u storio mewn adran yn y ffeil cymorth. Caiff y bobl eu helpu i fynd i apwyntiadau gofal iechyd pan fo angen mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a meddyliol. Caiff y cymorth ei ategu ymhellach drwy ddarparu ymarferwyr gofal iechyd arbenigol a gyflogir gan y darparwr, gan gynnwys nyrsys, ffisiotherapyddion, a therapyddion galwedigaethol. Mae llawer o'r gweithwyr gofal yn y gwasanaeth wedi bod yn y swydd ers sawl blwyddyn ac yn adnabod y bobl yn dda iawn. Mae hyn yn eu galluogi i nodi unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd yn gyflym a cheisio cymorth pan fo angen. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth wedi'i staffio'n llawn a bod pawb wedi setlo ar hyn o bryd. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ofalgar, gwrtais a chefnogol drwy gydol yr ymweliad arolygu.

Ar y cyfan mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth ac mae'r gweithwyr gofal sy'n helpu'r bobl gyda'u meddyginiaeth wedi'u hyfforddi ac ystyrir eu bod yn gymwys i wneud hynny. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

yn y swyddfa. Gwelwyd bod cofnodion o wiriadau tymheredd dyddiol yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau mewn cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR). Trafodwyd hyn â'r rheolwr a ddywedodd wrthym y caiff camau dilynol eu cymryd mewn perthynas â hyn. Hefyd, dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai'n trefnu i weithiwr proffesiynol allanol gwblhau archwiliad trylwyr o'r gweithdrefnau meddyginiaeth cyfredol er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau sy'n hybu llesiant a diogelwch y bobl. Gwnaethom edrych o gwmpas y gwasanaeth a gwelsom fod yr ardaloedd cymunedol yn gartrefol, yn lân, yn gyfforddus, yn fawr, yn olau ac mewn cyflwr da. Pan gynhaliwyd yr arolygiad roedd addurniadau Nadolig yn y lolfa a'r gegin gymunedol. Gwelsom fod gan y bobl eu heitemau personol eu hunain yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y gwasanaeth a gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardaloedd cymunedol ac yn rhyngweithio â'r gweithwyr gofal mewn ffordd gadarnhaol. Mae swyddfa ddiogel ble caiff ffeiliau eu storio'n briodol. Mae gardd flaen a gardd gefn lle gall y bobl dreulio amser. Mae'r adeilad yn ddiogel; mae'n rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch a llenwi'r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd.

Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân gorfodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae tystysgrifau cyfredol ar gyfer diogelwch nwy, synwyryddion tân, diffoddwyr tân, trydan a chyfarpar trydanol. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl waith cynnal a chadw, gwiriadau diogelwch amgylcheddol a gwaith atgyweirio eu cwblhau gan dîm ar y safle pan fo angen. Gwelsom ffeil cynnal a chadw drefnus a oedd yn nodi y caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau a'u cofnodi yn briodol yn unol â'r rheoliadau. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer unigolion. Caiff yr holl sylweddau CoSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith i lywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom yr adroddiad chwemisol diweddaraf ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn fanwl iawn ac yn cynnwys adborth gan bobl a staff y gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac yn cynnwys gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr wrthi'n cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodwyd hyn yn yr arolygiad diwethaf hefyd. Er nad oes angen

gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddaru lle bo angen. Mae Datganiad o Ddiben y gwasanaeth wedi cael ei adolygu ac mae'n cynnig adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth. Mae canllaw manwl a chlir i'r gwasanaeth ar gyfer y bobl a'u perthnasau. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg ar gais. Nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae rhai o'r gweithwyr gofal yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y lefelau staffio yn dda a dywedodd y rheolwr fod pob rota wedi'i staffio'n llawn. Caiff yr asiantaethau priodol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), eu hysbysu am unrhyw faterion o bwys sy'n effeithio ar y bobl neu'r gwasanaeth pan fo angen. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth yn gadarn ac nad oes unrhyw bryderon na chwynion ar hyn o bryd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm ymroddedig o weithwyr gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae nifer o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd ac yn gyfarwydd iawn ag anghenion y bobl a gefnogir. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél tri aelod o'r staff a gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi a recriwtio priodol ar waith. Mae'r ffeiliau yn cynnwys geirdaon a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r matrics hyfforddiant a welsom yn dangos bod bron pob un o ofynion hyfforddiant gorfodol y darparwr yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys rheoli heintiau, diogelu, iechyd a diogelwch, ac ymwybyddiaeth tân. Mae hyfforddiant arbenigol wedi'i gwblhau hefyd, gan gynnwys anaf i'r ymennydd, diabetes, anableddau dysgu, epilepsi a chymorth ymddygiadol. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi mynychu hyfforddiant diogelu a'u bod yn deall eu cyfrifoldeb yn hyn o beth. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu manwl a thrylwyr ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal. Gwelsom aelodau o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn canmol yr hyfforddiant a'r cymorth y maent yn eu cael. Ymysg y sylwadau a gafwyd gan y gweithwyr gofal roedd: *"amazing service the manager is wonderful, kind heart and really supportive".* Hefyd, *"we have very caring staff, that work hard and understand each individual, and the care we provide. We all have our supervisions at the appropriate time, person centred care is very important and the right to choose where appropriate".*

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |

| | |
|---|---|
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 67 | Cynhaliwyd arolygiad llawn ar 20 Rhagfyr 2022. Er bod rheolwr wedi'i benodi yn y gwasanaeth nid yw wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru eto. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Cynhaliwyd arolygiad llawn ar 20 Rhagfyr 2022.  Fel rhan o hyn, cynhaliwyd archwiliad o brosesau rhoi meddyginiaeth.  Gwelwyd rhai bylchau yn y cofnodion meddyginiaeth heb unrhyw esboniad. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi